# Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

**2010 mccc 4**

## 19 Darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed

(1) Nid yw'r ffaith bod adran 16 yn dod i rym yn effeithio ar unrhyw benderfyniad neu gyfarwyddyd sydd wedi'i wneud o dan ddarpariaethau'r canlynol—

(a) adrannau 20, 24 neu 53 o'r Ddeddf, neu

(b) adrannau 16, 18 neu 34A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38).

(2) Mae unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan benderfyniad neu gyfarwyddyd o'r fath yn parhau mewn grym fel pe bai wedi'i gwneud gan y Bwrdd o dan adrannau 20, 24 neu 53 (yn ôl fel y digwydd) o'r Ddeddf fel y'i diwygir gan y Mesur hwn a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriadau at y **[**[F1]Senedd**]** neu at Gomisiwn y **[**[F1]Senedd**]** mewn penderfyniad neu gyfarwyddyd o'r fath fel cyfeiriadau at y Bwrdd, i'r graddau bod angen gwneud hynny er mwyn rhoi effaith i'r is-adran hon.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn Measure wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(12)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 19 mewn grym ar 24.9.2010 yn unol ag **a. 20(3)(4)** ac fel y nodir yn yr hysbysiad gofynnol, gweler https://senedd.cymru/media/1t3mmgav/gen-ld8227-e-cymraeg.pdf

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, Adran 19.